Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid a Disgyblion,

Mae CRhA Bryn Tawe wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth godi arian i wella addysg a phrofiad disgyblion ym Mryn Tawe. Mae hefyd yn gyswllt cartref-ysgol amhrisiadwy i rieni wrth i'w plant bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Yn wir, o ganlyniad uniongyrchol i haelioni, cefnogaeth a gwaith caled disgyblion, rhieni a staff, mae'r CRhA wedi codi miloedd o bunnau i brynu amrywiaeth o eitemau: o fws mini i'r ysgol i biano a drymiau, iPads, citiau tîm ac offer i'r adran Celf, TG a Thechnoleg Bwyd. Mae disgyblion Bryn Tawe wedi elwa o gael CRhA gweithgar a bywiog.

Rydym am ddiolch yn fawr i'r rhai a ddaeth i Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y CRhA, lle penderfynwyd ar yr aelodau canlynol i fod yn rhan o'r pwyllgor.
Mr Simon Davies – Pennaeth Mrs Elizabeth Bevan – Cadeirydd Mrs Sarah East – Ysgrifennydd,
Ms Margaret Bartlett – Trysorydd Mrs Nicky Heady, Mrs Lisa Marie Knight, Mrs Emma Lewis.

Rhan fach yn unig yw'r pwyllgor o'r CRhA, ac mae'r CRhA bob amser yn chwilio am rieni, neiniau a theidiau a gwarcheidwaid i wirfoddoli. Rydym yn gwerthfawrogi bod bywyd teuluol yn brysur iawn i'r rhan fwyaf o bobl, felly rydym ond yn gofyn am ychydig o ymrwymiad gan rieni ac nid yw'r gallu i siarad Cymraeg yn angenrheidiol.

Cefnogwch CRhA ysgol eich plentyn ym mha ffordd bynnag y gallwch. O ganlyniad i doriadau cyllidebol diweddar y cyngor, mae rôl y CRhA yn fwy canolog byth wrth gefnogi'r ysgol gyda'r "pethau ychwanegol" na fyddai ar gael fel arfer yng nghyllideb yr ysgol.

Os oes gennych amser i wirfoddoli mewn digwyddiadau, eitemau i'w rhoi i'n raffl ysgol, neu sgiliau y gallai'r CRhA eu defnyddio mewn ffyrdd eraill, cysylltwch ag aelodau'r pwyllgor CRhA drwy swyddfa'r ysgol

Y digwyddiad cyntaf ar galendr CRhA yw'r: **Ffair Nadolig - nos Fercher 23ain o Tachwedd am 6.00 o`r gloch**
Eleni, bydd pob grŵp blwyddyn yn gyfrifol am roi eitemau i'r stondinau canlynol.
BL.7 – Hamperi dosbarth lliw.
BL.8 – Teganau meddal o safon dda.
BL.9 – Gwobrau twba lwcus – wedi'u lapio a'u labelu ar gyfer bachgen neu ferch.
BL.10 – Poteli – sudd, gwin, diodydd pefriog.
BL. 11 – Tombola – Anrhegion newydd, rhad ar gyfer y stondin tombola.
BL. 12 – Colur – Colur heb ei agor, setiau rhodd, geliau cawod etc.
BL. 13 – Pecynnau o losin a bisgedi.
Pris mynediad i'r ffair yw £1 i oedolion – dim tâl i blant.
Bydd amrywiaeth eang o stondinau megis crefftau, llyfrau, teganau a chacennau, paentio gwynebau, caffi, castell neidio a llawer mwy. Efallai fydd Siôn Corn yn dod i ymweld!
Rydym hefyd yn casglu DVDs, CDs, llyfrau, dillad, teganau plant, gemau ac eitemau i'r cartref o safon ar gyfer "stondin bron fel newydd." Beth am glirio'r tŷ cyn y Nadolig a helpu'r CRhA i godi arian yn y broses? Dylai'r holl roddion, ynghyd â bonion raffl wedi'u gwerthu/heb eu gwerthu ac arian raffl, ddod i'r ysgol erbyn **dydd Gwener 4 Tachwedd,** a **fydd yn ddiwrnod gwisg anfurfiol.**

Cyfarfod CRA nesaf ar **ddydd Mercher 15fed o Tachwedd am 4.00 o`r gloch.**

Os oes gennych unrhyw syniadau, rydym o hyd yn edrych am rhieni i goginio cacennau arbennig ! os hoffech wirfoddoli neu gael stondin yn y Ffair Nadolig, cysylltwch â Margaret Bartlett yn swyddfa'r ysgol.

Diolch yn fawr ymlaen llawn am eich cefnogaeth barhaus.

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600 Ffacs 01792 560601
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Ysgol Rygbi School of Rugby
Ysgol sy'n parchu hawliau UNICEF
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Au